HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG
BRITISH TRANSPORT POLICE

# Cynllun Plismona Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2026-27



# Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Cynllun Plismona ar gyfer 2026/27. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau gweithredol ar gyfer yr Heddlu eleni, a'n hymrwymiad fel Awdurdod i gefnogi a goruchwylio ein heddlu i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y rheilffyrdd, eu teithwyr a'u staff.

Mae'r cyd-destun gweithredu yn parhau i fod yn heriol, wedi'i lywio gan ddiwygiadau i'r rheilffyrdd a phlismona. Mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau uchel sy'n gwbl briodol, gyda ffocws diflino ar hyder y cyhoedd, ffactorau risg a phroffesiynoldeb. Mae ein cynllun yn adlewyrchu'r materion y mae ein pobl a'n partneriaid wedi dweud wrthym sydd bwysicaf, ac rydym yn disgwyl y byddwn yn cael ein dwyn i gyfrif yn agos am gyflawni eu disgwyliadau.

Fel Cadeirydd, hoffwn fod yn glir: y rheilffordd yw yn un o fannau cyhoeddus mwyaf diogel y DU o hyd. Ein rôl yw sicrhau ei bod yn aros felly. Mae'r Cynllun Plismona hwn yn dangos ein huchelgais a rennir i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, cefnogi staff y rheilffyrdd, sicrhau bod y rhwydwaith rheilffyrdd yn rhedeg yn ddidrafferth a sicrhau bod plismona ar y rheilffyrdd yn parhau i gyrraedd y safonau uchaf.

Rwy'n falch o'r ymrwymiadau a wneir yn y cynllun hwn a byddaf yn gweithio gyda fy nghyd-aelodau o'r Awdurdod i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni dros y flwyddyn nesaf.



**Tricia Hayes**
Cadeirydd

**E-bost**
Tricia.Hayes@btp.police.uk



# Cyflwyniad y Prif Gwnstabl

Rwy'n falch ogyflwyno **Cynllun Plismona'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer 2026/27**. Mae'n trosi'r uchelgais a nodir yn *Strategaeth Gwarcheidwaid y Rheilffordd 2026 i 2029* yn gamau cyflawni clir, mesuradwy ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'n nodi'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt, y safonau y byddwn yn cydymffurfio â nhw, a sut y byddwn yn sicrhau bod ein swyddogion a'n staff yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i'r cyhoedd ac i'r diwydiant rheilffyrdd. Mae hefyd yn darparu sail glir y gallwn ei defnyddio i ddwyn ein perfformiad i gyfrif.

Mae ein hamgylchedd gweithredu yn parhau i fod yn heriol. Mae nifer y teithwyr yn parhau i gynyddu, mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn datblygu drwy ddiwygiadau a chynlluniau ehangu, ac mae blaenoriaethau plismona cenedlaethol yn rhoi pwyslais cryf ar amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed, meithrin ymddiriedaeth a darparu plismona gweladwy ac effeithiol, a hynny'n gwbl briodol. Mae'r Cynllun Plismona hwn yn rhoi eglurder i'n pobl ynghylch sut y byddwn yn bodloni'r disgwyliadau hynny, gan sicrhau bod ein gweithgarwch yn cyd-fynd â'n hymrwymiadau strategol.

Mae amddiffyn pobl rhag niwed difrifol, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, wrth wraidd ein ffocws gweithredol. Mae mynd i'r afael â thrais a bygylu yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn un o'n cyfrifoldebau pwysicaf. Byddwn yn cryfhau'r ffordd y mae swyddogion yn cael eu rhannu yn seiliedig ar guddwybodaeth, yn gwella safonau ymchwilio, ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i atal niwed ac ymateb yn bendant pan fydd troseddau'n digwydd. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i leihau nifer yr ymosodiadau ar staff y rheilffyrdd, gan gydnabod y rôl hollbwysig y maent yn ei chwarae i sicrhau bod y rheilffyrdd yn rhedeg yn ddiogel bob dydd.

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal rheilffyrdd dibynadwy drwy leihau achosion o darfu. Boed yn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau, yn rheoli marwolaethau ag urddas a phroffesiynoldeb, neu'n gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i fynd i'r afael ag achosion mynych o darfu ac oedi, mae ein rôl yn glir: lleihau niwed, cynnal diogelwch a chadw teithwyr yn symud.

Mae plismona gweladwy, rhagweithiol a chydlynol yn parhau i fod yn hanfodol i hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i deithwyr a staff y rheilffyrdd weld a theimlo ein presenoldeb, yn enwedig pan fydd angen sicrwydd fwyaf. Byddwn yn parhau i gryfhau trefniadau cydweithio â gweithredwyr rheilffyrdd, timau diogelwch a heddluoedd partner, gan sicrhau bod gweithgarwch plismona a diogelwch yn gyson, wedi'i dargedu ac yn effeithiol ar draws y rhwydwaith.

Mae'r Cynllun Plismona hwn yn seiliedig ar realaeth, proffesiynoldeb, ac ymroddiad ein swyddogion a'n staff. Er mai'r rhwydwaith rheilffyrdd yw un o'r amgylcheddau cyhoeddus mwyaf diogel yn y wlad o hyd, gwyddom fod yn rhaid ennill hyder drwy weithredoedd, gweledd a chyflawniad. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gwneud hynny yn 2026/27.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n timau a'n partneriaid ar draws y rheilffyrdd i gyflawni'r ymrwymiadau hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.




**Lucy D'Orsi CVO QPM**
Prif Gwnstabl

**E-bost**
Lucy.Dorsi@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPChief




# Ein Blaenoriaethau



## Hyder Teithwyr a Staff

Wedi'i ategu gan ddull holl-ddiwydiant ac atal

### Troseddau niwed mawr a diogelu pobl agored i niwed

**Byddwn yn creu amgylchedd gelyniaethus ar gyfer troseddau niwed uchel ac agoredrywydd i niwed trwy:**

- Atal a lleihau trais yn erbyn menywod a merched.
- Mynd i'r afael â thrais difrifol.
- Cynnal ymchwiliadau effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr, gyda threfniadau rheoli troseddwyr cadarn.
- Diogelu pobl agored i niwed ac atal achosion o gamddefnyddio'r rhwydwaith at ddibenion troseddol.

### Tarfu ac oedi

**Byddwn yn cadw'r rhwydwaith i redeg trwy:**

- Rheoli achosion o darfu sy'n gysylltiedig â'r heddlu yn effeithiol.
- Gweithgarwch wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gyfrifol am achosion o darfu; tresmasu, fandaliaeth a dwyn ceblau.

### Presenoldeb gweladwy a chydlyniad gwell

**Byddwn yn cryfhau ein presenoldeb gweladwy a'n cydlynu gwell trwy:**

- Darparu plismona a diogelwch rheilffyrdd mwy integredig.
- Mynd i'r afael ag ymddygiad ymosodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gweithgarwch wedi'i dargedu i atal anhrefn a niwed.

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol




**Er mwyn mesur cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth, byddwn yn monitro'r dangosyddion perfformiad canlynol***

## Troseddau niwed mawr a diogelu pobl agored i niwed

- Lefelau troseddu o ran trais (wedi'u rhannu yn ôl anafiadau difrifol a dim anafiadau), ymosodiadau ar staff rheilffyrdd a swyddogion; troseddau trefn gyhoeddus a throseddau rhywiol lle mae'r dioddefwyr yn fenywod
- Cyfraddau datrys a throseddau a ddatryswyd yn ôl y math o drosedd
- Ffurflenni argymhellion diogelu ar gyfer pobl agored i niwed (e.e. Cam-drin Domestig, Oedolion sy'n Wynebu Risg)
- Ymyriadau sy'n achub bywyd
- Canlyniadau arolygon dioddefwyr troseddau
- Cynnydd yn erbyn Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched ac Ymgyrch Op Soteria

## Tarfu ac oedi

- Digwyddiadau o darfu drwy'r Heddlu cyfan a'r munudau sylfaenol yn ôl y categori
- Digwyddiadau o darfu a'r munudau sylfaenol mewn lleoliadau allweddol yn ôl y categori
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiadau ar gyfer galwadau sy'n gofyn am ymateb ar unwaith a galwadau â blaenoriaeth
- Unigolion sydd i'w gweld yn aml ar y rhwydwaith
- Amseroedd Rheoli Ymchwiliadau i Farwolaethau
- Cyfraddau datrys a throseddau a ddatryswyd yn ôl y math o drosedd

## Presenoldeb gweladwy a chydlyniad gwell

- Digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiadau ar gyfer galwadau sy'n gofyn am ymateb ar unwaith a galwadau â blaenoriaeth
- Patrolau gweladwy mewn lleoliadau blaenoriaeth
- Gweithrediadau cydweithredol gyda'r diwydiant rheilffyrdd, gorfodi'r gyfraith a phartneriaid eraill
- Canlyniadau'r Arolwg Staff a Theithwyr y Rheilffyrdd

*Daw'r dangosyddion a restrir o Fframwaith Perfformiad yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac nid ydynt yn cynnwys pob dangosydd

# Cyllideb ac Adnoddau





**Ar gyfer 2026/27, pennodd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyllideb o £445.2m a ddyrennir fel a ganlyn:**




- Rhanbarth A – £222.0m
- Rhanbarth B (Trosddaearol) – £53.0m
- Rhanbarth B (Tanddaearol) – £51.7m
- Rhanbarth C – £58.4m
- Rhanbarth D – £12.6m
- Rhanbarth E – £44.5m
- BTPA – £3.0m

## Niferoedd staff




Rhanbarth A, Rhanbarth B, Rhanbarth C, Rhanbarth D, Rhanbarth E, BTPA

* Mae'n bosibl y bydd y cymysgedd staffio yn newid wrth i ofynion newid

** O blith ffigurau Rhanbarth B, mae 574.5 o swyddogion cyfwerth â llawn amser, 74 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, 41 o swyddogion gwirfoddol a 54.95 o staff yr heddlu yn gyflogeion TfL.

# Cysylltiadau Rhanbarthol

**I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau lleol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, cysylltwch â:**

## Rhanbarth A

- Ditectif Brif Uwch-arolygydd Peter Fulton – Pennaeth Troseddau a Diogelu'r Cyhoedd
  Peter.Fulton@btp.police.uk

## Rhanbarth B

- Prif Uwch-arolygydd Dros Dro Dominique Ioannou – Comander Rhanbarthol
  Dominique.Ioannou@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Nick Sedgemore – Comander Is-ranbarthol Gogledd Lloegr
  Nick.Sedgemore@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Darren Malpas – Comander Is-ranbarthol De Lloegr
  Darren.Malpas@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd John Loveless – Comander Is-ranbarthol Canol Lloegr
  John.Loveless@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Dros Dro Liam Kelly – Gweithrediadau
  Liam.Kelly@btp.police.uk

## Rhanbarth C

- Prif Uwch-arolygydd David Rams – Comander Rhanbarthol
  David.Rams@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Sue Peters – Comander Is-ranbarthol Canolbarth Lloegr
  Sue.Peters@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Jamie McGowan – Comander Is-ranbarthol y Penwynion
  Jamie.McGowan@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Mark Cleland – Comander Is-ranbarthol Cymru
  Mark.Cleland@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Richard Powell – Comander Is-ranbarthol Gorllewin Lloegr
  Richard.Powell.1204@btp.police.uk

## Rhanbarth D

- Prif Uwch-arolygydd Lorna McEwan – Comander Rhanbarthol
  Lorna.McEwan@btp.police.uk
- Uwch-arolygydd Christopher Shields
  Christopher.Shields@btp.police.uk

## Rhanbarth E

- Prif Uwch-arolygydd Sandra England – Comander Rhanbarthol
  Sandra.England@btp.police.uk

